## AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd yn rhithiol drwy Zoom ddydd Llun, 20 Medi 2021. Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 o'r gloch y bore.

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
| --- | --- |
| P R Lewis (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Rees | Cyngor Sir Ynys Môn |
| R Griffiths | Cyngor Sir Ynys Môn |
| R E Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| N Smith | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| B Blakeley | Cyngor Sir Ddinbych |
| M Ll Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| P Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| M Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| W O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| D Wisinger | Cyngor Sir y Fflint |
| J B Hughes | Cyngor Gwynedd |
| J W Parry | Cyngor Gwynedd |
| G A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| B Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| M Dixon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

**Hefyd yn bresennol:**

D Docx (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C P Everett (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); G Owens (Dirprwy Glerc a Swyddog Monitro); R Fairhead, H MacArthur ac S Millington (Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol); S Morris (Prif Swyddog Cynorthwyol); H Howard (Pennaeth Cyllid); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i Dawn Docx i'w chyfarfod cyntaf fel Prif Swyddog Tân.

1 YMDDIHEURIADAU

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
| --- | --- |
| A Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| S Lloyd-Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| B Parry-Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

2 DATGAN BUDDIANNAU

2.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

3 RHYBUDD O FATERION BRYS

3 Nid oedd unrhyw rybudd o faterion brys.

4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 21 MEHEFIN 2021

4.1 Cafodd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 21 Mehefin eu cyflwyno er mwyn eu cymeradwyo.

4.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod yn gofnod gwir a chywir.**

5 MATERION YN CODI

5.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

6 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

6.1 Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau am y cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth iddynt dros fisoedd yr haf.

6.2 Yn ogystal â'r cyfarfodydd rheolaidd â'r Dirprwy Gadeirydd a'r Prif Swyddog Tân, roedd wedi mynychu cyfarfod ag WLGA a chydweithwyr o'r ATAau yng Nghymru i drafod eitemau o ddiddordeb cyffredin. Roedd y rhain yn cynnwys rôl Diffoddwyr Tân, Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys (ESN) a diogelwch tân adeiladau.

6.3 Roedd yr Aelodau'n gwybod yn iawn am yr oedi hir gyda'r ESN ac am y gost ychwanegol sylweddol sy'n gysylltiedig â hynny. Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno i barhau â'i chyfraniad cyfredol o £1.6m, ond roedd y costau ychwanegol yn parhau i dyfu ac roedd £1m yn fyr ac yn cynyddu.

6.4 O ran diogelwch tân adeiladau, roedd pryder fod diffyg cyllid yng Nghymru i landlordiaid allu asesu eu hadeiladau; bydd y PST yn symud y mater hwn yn ei flaen gyda chydweithwyr yng Nghymru.

6.5 Roedd y Cadeirydd yn falch ei fod wedi gallu cynrychioli'r Awdurdod yn y seremoni cyrhaeddiad ar gyfer Prentisiaid Arweinwyr y Dyfodol yng Ngorsaf Dân y Rhyl ac yn y seremoni Gwobrau Gwasanaeth Hir yn y Pencadlys.

6.6 Ar yr adeg hon, rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Aelodau mai dyma oedd cyfarfod olaf Colin Everett cyn ei ymddeoliad. Talodd y Cadeirydd deyrnged i Mr Everett am ei gyngor ac am ddod â chryn broffesiynoldeb i swydd Clerc yr Awdurdod ers 2008. Dangosodd yr Aelodau eu gwerthfawrogiad drwy gymeradwyo. Diolchodd Mr Everett i'r Cadeirydd gan ddymuno'n dda i'r Awdurdod yn y dyfodol.

6.7 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

7 Y DIWEDDARAF AM COVID-19

7.1 Rhoddodd y PSTC Fairhead wybodaeth i'r Aelodau am weithgarwch yn ymwneud â COVID-19 a'r sefyllfa ddiweddaraf yn y Gwasanaeth.

7.2 Mae'r Gwasanaeth yn parhau â'i broses ar gyfer yr adferiad a pharatoi ar gyfer ffyrdd newydd o weithio yn y dyfodol. Mae'r Gwasanaeth yn cael ei gynrychioli ar Grŵp Cydlynu'r Adferiad, ac mae'n dal i ddarparu staff i Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ar gyfer dyletswyddau gyrru.

7.3 Roedd yr Aelodau'n falch o nodi fod cyrsiau'r Ffenics, sy'n para wythnos, wedi ailddechrau a bod asesiadau risg cadarn wedi cael eu sefydlu i ddiogelu pawb sy'n cymryd rhan ynddynt.

7.4 O ran agweddau eraill ar ddiogelwch cymunedol, nodwyd bod archwiliadau diogel ac iach wedi cael eu cynnal yn bersonol i'r bobl fwyaf bregus mewn cymunedau drwy gydol y pandemig ond bod y Gwasanaeth yn symud erbyn hyn tuag at gynnal mwy o'r archwiliadau hyn yn bersonol a chaiff yr Aelodau wybod am y datblygiadau. Hefyd, mae'r tîm diogelwch tân ar gyfer busnesau bellach yn cynnal mwy o archwiliadau yn bersonol ar adeiladau masnachol er mwyn monitro'r darpariaethau diogelwch tân.

7.5 Mae'r Gwasanaeth yn parhau i ddilyn cyngor y llywodraeth ac mae'n gweithio tuag at normal newydd drwy grŵp mewnol ar gyfer rheoli parhad busnes ac mae mwy o gyfarfodydd yn cael eu cynnal yn bersonol yn raddol, gyda'r mesurau diogelwch priodol yn eu lle.

7.6 Talodd y PSTC Fairhead, ar ran tîm y Prif Swyddogion, deyrnged i'r holl staff ymhob swyddogaeth, adran a gorsaf am y modd y maent wedi gweithio drwy'r pandemig a'r modd y maent yn parhau i wneud hynny – heb eu proffesiynoldeb a'u hymroddiad, ni fyddai gwasanaethau hanfodol wedi gallu parhau i gael eu darparu ers mis Mawrth 2020. Roedd yr Aelodau hefyd yr un mor werthfawrogol o ymdrechion y staff ers dechrau'r pandemig.

7.7 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

8 ASESIAD DRAFFT O BERFFORMIAD BLYNYDDOL EBRILL 2020 – MAWRTH 2021

8.1 Cyflwynodd y PSC Morris yr asesiad drafft o berfformiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn ystod 2020/21o ran ei gynnydd tuag at gyflawni ei Amcanion Gwella a Llesiant hirdymor, ei Amcanion Cydraddoldeb tymor canolig a'i gydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg sy'n gymwys iddo.

8.2 Nodwyd bod yr Awdurdod, er gwaethaf y pandemig, wedi gwneud cynnydd da y llynedd tuag at gyflawni ein Hamcanion Gwella a Llesiant hirdymor. Gwnaethpwyd hyn yn rhannol drwy lwyddo i gyflawni'r amcanion a gynlluniwyd ac a nodwyd yng Nghynllun Gwella a Llesiant 2019/2020 a gyhoeddwyd gan yr Awdurdod. Gwnaethpwyd cynnydd cyson hefyd yn ystod y flwyddyn tuag at gyflawni Amcanion Cydraddoldeb yr Awdurdod ar gyfer 2016-20; a pharhaodd yr Awdurdod i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg sy'n gymwys iddo.

8.3 I ateb cwestiwn gan un o'r Aelodau, cadarnhawyd y byddai Llywodraeth Cymru yn darparu'r data am amseroedd ymateb, a rhagwelid y byddai hyn ar gael cyn y dyddiad terfynol ar gyfer cyhoeddi'r ddogfen.

8.4 Roedd yr Aelodau'n hael eu canmoliaeth i ansawdd y ddogfen gynhwysfawr; roedd y dystiolaeth yn y ddogfen yn dangos yn glir y cynnydd a wnaed yn ystod y flwyddyn er mwyn cyflawni'r amcanion. Roedd yr Aelodau hefyd eisiau llongyfarch y staff am gyflawni'r amcanion yn ystod y pandemig.

8.5 Talodd y PSC Morris deyrnged i'r Tîm Cyfathrebu Corfforaethol, ac yn enwedig i awduron y ddogfen asesu perfformiad a oedd wedi ymuno â'r Gwasanaeth ym mis Rhagfyr 2020. Roedd Richard Noble a Gillian Wilson wedi gallu dysgu'r gwaith tra'n gweithio o bell ac roeddent wedi dadansoddi a choladu'r holl ddata angenrheidiol drwy ddulliau electronig.

8.6 **PENDERFYNWYD:**

**(i) cymeradwyo'r asesiad drafft o berfformiad yr Awdurdod yn 2020/21 (yn ddibynnol ar fân ychwanegiadau a chywiriadau os bydd angen) i'w gyhoeddi ar wefan yr Awdurdod erbyn 30/09/2021; a**

**(ii) nodi bwriad y Gwasanaeth i gyhoeddi fersiwn gryno syml o'r elfennau allweddol o adroddiad yr asesiad.**

9 ALLDRO AMCANOL 2021/22

9.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur yr adroddiad a oedd yn amlinellu'r sefyllfa a ragwelir o ran gwariant refeniw a chyfalaf 2021/22, fel yr oedd pethau ar 31 Gorffennaf 2021.

9.2 Nodwyd bod y sefyllfa alldro a ragwelir yn parhau, sef y bydd yr Awdurdod yn adennill costau mewn perthynas â'r gyllideb refeniw o £37.07m.

9.3 Atgoffwyd yr Aelodau fod y rhaglen gyfalaf yn dal i gael ei hadolygu oherwydd bod cyfyngiadau Covid 19 yn parhau, ac y cytunwyd yn y cyfarfod ar 15 Mawrth 2021 ar gynllun cyfalaf diwygiedig yn werth £2.985m.

9.4 Cafodd yr Aelodau wybod y bu'n rhaid, yn ystod y flwyddyn, adolygu dyraniad y gyllideb ar draws y penawdau incwm a gwariant. Roedd y tabl isod yn rhoi manylion y cyllidebau gwreiddiol a diwygiedig. Nododd yr Aelodau y rhagwelir y bydd angen gwneud rhagor o waith caboli yn ystod y flwyddyn ariannol er mwyn adlewyrchu'r heriau parhaus.

| **Pennawd y Gyllideb** | **Cymeradwywyd Mawrth 2021 £'000** | **Diwygiedig Gorffennaf 2021 £'000** | **Addasiad £'000** |
|---|---:|---:|---:|
| Gweithwyr | 28,360 | 28,411 | 51 |
| Safleoedd | 2,687 | 2,725 | 38 |
| Cludiant | 1,003 | 983 | -20 |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | 4,976 | 4,973 | -3 |
| Ariannu Cyfalaf | 2,467 | 2,467 | 0 |
| Incwm | -2,419 | -2,485 | -66 |
| **Cyfanswm** | **37,074** | **37,074** | **0** |

9.5 Diolchodd y Cadeirydd i staff yr Adran Gyllid am adroddiad rhagorol, a nododd yr Aelodau beth yw'r effaith y mae chwyddiant yn debygol o'i chael ar y gyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol hon ac yn y blynyddoedd i ddod. Dywedodd y Cadeirydd hefyd y bydd yr Awdurdod, gobeithio, yn gallu gwneud cais am gymorth ariannol a fydd yn cael ei gynnig gan Lywodraeth Cymru.

9.6 **PENDERFYNWYD**

**(i)** **nodi'r rhagamcanion alldro drafft refeniw a chyfalaf ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 fel y nodir yn yr adroddiad; a**

**(ii)** **cymeradwyo'r cais i ail-gysoni'r gyllideb.**

10 HER GYFREITHIOL I DDIWYGIADAU PENSIWN 2015

10.1 Yn ogystal â'r adroddiad a gyflwynwyd i'r Aelodau, rhoddodd y PSTC MacArthur gyflwyniad hefyd a oedd yn nodi'r problemau a'r heriau sy'n gysylltiedig â'r her gyfreithiol.

10.2 Yn dilyn y cyflwyniad, rhoddodd y PSTC Millington olwg gyffredinol ar yr effaith y mae'r materion pensiwn yn ei chael ar agweddau gweithredol ar y Gwasanaeth.

10.3 Cadarnhawyd bod y rhai sydd â risg o niwed uniongyrchol yn cael eu cefnogi gan y Gwasanaeth a bod yr holl aelodau'n cael gohebiaeth yn rheolaidd.

10.4 Roedd yr Aelodau'n ddiolchgar i'r PSTC MacArthur am ddarparu cyflwyniad a oedd yn esbonio'r sefyllfa gymhleth yn glir; dywedodd y Cyng. Apsley, fel Aelod o'r Bwrdd Pensiwn Lleol, fod y sefyllfa yn wir yn un gymhleth iawn a bod gwybodaeth mewn termau lleyg yn rhywbeth i'w groesawu'n fawr.

10.5 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r sefyllfa bresennol o ran rhwymedi; a**
**(ii) cymeradwyo'r argymhellion fod achosion o niwed uniongyrchol yn symud ymlaen dim ond ar ôl cael arweiniad gan ymgynghorwyr cyfreithiol, gan gynnwys indemniadau priodol.**

Ar yr adeg hon, gadawodd y Cyng. R Griffiths y cyfarfod.

11 AELOD O FWRDD Y STRATEGAETH AMGYLCHEDDOL A HYRWYDDWR CYNALIADWYEDD

11.1 Cyflwynodd y PSTC Morris yr adroddiad a oedd yn ceisio cael enwebiad ar gyfer Aelod o'r Awdurdod Tân ac Achub i sefyll ar Fwrdd Strategaeth Amgylcheddol y Gwasanaeth a bod yn hyrwyddwr cynaliadwyedd ar gyfer yr Awdurdod tan ddiwedd mis Ebrill 2022.

11.2 Esboniodd y PSC Morris fod Amcan 6 o Gynllun Corfforaethol yr Awdurdod ar gyfer 2021-24 yn ymrwymo'r Awdurdod i ddatblygu ffyrdd o fod yn fwy ymwybodol o'r amgylchedd er mwyn lleihau'r effaith y mae ei weithgarwch yn ei chael ar yr amgylchedd. Un o'r camau o dan yr amcan hwn yw sefydlu bwrdd strategol sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer yr Awdurdod.

11.3 Fe wnaeth y Cyng. D Rees enwebu'r Cyng. M Dixon, ac eiliwyd hyn gan yr holl Aelodau.

11.4 **PENDERFYNWYD enwebu'r Cyng. Michael Dixon i sefyll ar Fwrdd y Strategaeth Amgylcheddol a bod yn Hyrwyddwr Cynaliadwyedd yr Awdurdod tan ddiwedd mis Ebrill 2022.**

12 DYFARNIAD CYFLOG Y PRIF SWYDDOGION 2021

12.1 Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Dirprwy Glerc ac roedd yn gofyn i'r Aelodau nodi a chefnogi'r trefniadau ar gyfer cytuno ar y dyfarniadau cyflog blynyddol i Brif Swyddogion yn 2021.

12.2 **PENDERFYNWYD**

**(i) cymeradwyo'r dyfarniad cyflog o 1.5% i'r Prif Swyddog Tân a'r Prif Swyddogion Tân Cynorthwyol gan ddod i rym ar 1 Ionawr 2021;**
**(ii) nodi'r trefniadau negodi a chymeradwyo ar gyfer y dyfarniadau cyflog i'r Prif Swyddogion Cynorthwyol a'r Trysorydd;**
**(iii) nodi safbwynt presennol y JNC am y dyfarniad cyflog i'r Prif Swyddogion Cynorthwyol a'r Trysorydd ar gyfer 2021; a**
**(iv) cytuno ar dalu'r dyfarniad cyflog i'r Prif Swyddogion Cynorthwyol a'r Trysorydd pan fydd y negodiadau cenedlaethol gyda'r JNC wedi cael eu cwblhau.**

13 GRŴP Y GWASANAETH TÂN CYNHWYSOL (IFSG)

13.1 Cyflwynodd y PSC Morris yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am waith Grŵp y Gwasanaeth Tân Cynhwysol.

13.2 Nodwyd bod y grŵp, dan gadeiryddiaeth y Cynghorydd Sue Lloyd-Williams, wedi hybu gwelliannau ym maes cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn y Gwasanaeth ers 2017. Oherwydd y cynnydd a wnaed yn gwreiddio'r agweddau hyn yn y busnes o ddydd i ddydd, argymhellwyd nad oedd angen cyfarfodydd ffurfiol o'r grŵp erbyn hyn.

13.3 Roedd y Cyng. Apsley o'r farn y dylid cyflwyno adroddiad yn nodi gwaith a llwyddiannau'r grŵp i'r Aelodau cyn cytuno i roi'r gorau i gyfarfodydd ffurfiol o'r grŵp. Felly, cynigiodd y Cyng. Apsley ohirio'r ail argymhelliad yn yr adroddiad hyd nes y caiff adroddiad o'r fath ei ddarparu. Cytunodd yr Aelodau ar y cynnig hwn.

13.4 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r cynnydd a wnaed yn gwreiddio gwaith Grŵp y Gwasanaeth Tân Cynhwysol;**
**(ii) nodi'r bwriad i ddod ag adroddiad i gyfarfod yn y dyfodol i roi manylion gwaith a llwyddiannau'r Grŵp ers 2017;**
**(iii) gohirio'r penderfyniad i roi'r gorau i gyfarfodydd ffurfiol o Grŵp y Gwasanaeth Tân Cynhwysol hyd nes y bydd yr adroddiad yn (ii) uchod wedi dod i law.**

14 ADOLYGIAD O'R CYFANSODDIAD

14.1 Rhoddodd y Dirprwy Glerc wybodaeth am yr adolygiad sydd wrthi'n cael ei gynnal ar y cyfansoddiad. Roedd cyfarfod o'r grŵp adolygu wedi cael ei gynnull ac roedd cyfarfod arall wedi'i drefnu ar gyfer canol mis Hydref, felly disgwylir y bydd cyfansoddiad diwygiedig yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod.

14.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

15 ADOLYGIAD O BOLISI CHWYTHU'R CHWIBAN

15.1 Cyflwynodd y Dirprwy Glerc y polisi chwythu'r chwiban diwygiedig, fel y cafodd ei newid gan y Pwyllgor Safonau, er mwyn iddo gael ei gymeradwyo.

15.2 Esboniodd y Dirprwy Glerc mai'r Pwyllgor Safonau, fel rhan o'i gylch gorchwyl, oedd wedi gorfod "goruchwylio'r gyfundrefn chwythu'r chwiban" o'r blaen. Yn dilyn adolygu'r polisi, cynigiwyd nifer o newidiadau i eiriad y polisi ynghyd â newid y berchnogaeth o'r Pwyllgor Safonau i'r Pwyllgor Archwilio.

15.3 Cytunodd yr Aelodau mai'r Pwyllgor Archwilio ddylai oruchwylio'r gyfundrefn hon gan fod cysylltiadau â chywirdeb ariannol yn hytrach na gyda chod ymddygiad yr Aelodau.

15.4 **PENDERFYNWYD:**

- **(i) y newidiadau arfaethedig i'r polisi;**
- **(ii) mai'r Pwyllgor Archwilio ddylai oruchwylio'r gyfundrefn chwythu'r chwiban yn y dyfodol.**

Ar yr adeg hon, gadawodd y Cyng. G A Roberts y cyfarfod.

Cyn trafod yr eitem hon, tynnwyd Helen MacArthur, Gareth Owens a Matt Georgiou o'r cyfarfod.

16 PENODI I SWYDDI SWYDDOG MONITRO A THRYSORYDD

16.1 Cyflwynodd y PST yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am ofynion swyddi statudol Swyddog Monitro a Thrysorydd: ceisio cymeradwyaeth i ddechrau ar broses gystadleuol i benodi, gan ddod i rym ar 1 Ebrill 2022 a chynnig trefniadau interim ar gyfer y ddwy swydd.

16.2 Mae swyddi Swyddog Monitro a Thrysorydd yn swyddi statudol y mae'n rhaid eu dal gan unigolion ag enw sydd â'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiad perthnasol. Daw'r swyddi'n wag o 31 Mawrth 2022. Cynigir yn y cyfnod interim fod Gareth Owens yn cyflawni swydd Swyddog Monitro a bod Helen MacArthur yn cyflawni dyletswyddau'r Trysorydd gyda chymorth gan y Trysorydd sy'n gadael.

16.3 Nodwyd bod y mater hwn wedi cael ei ystyried gan y Panel Gweithredol yn ei gyfarfod ar 26 Gorffennaf 2021. Roedd yr Aelodau'n argymell dechrau ar broses gystadleuol ar gyfer y ddwy swydd statudol, bod Pwyllgor Penodiadau'n cael ei sefydlu a'i fod yn cynnwys un cynrychiolydd o bob awdurdod cyfansoddol. Bydd angen i'r Awdurdod llawn gymeradwyo'r penodiadau yn dilyn argymhelliad gan y Pwyllgor.

16.4 **PENDERFYNWYD:**

- **(i) cymeradwyo dechrau ar broses gystadleuol i benodi i swyddi statudol Trysorydd a Swyddog Monitro gan ddod i rym ar 1 Ebrill 2022;**
- **(ii) cytuno y bydd Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, yn cyflawni swydd Trysorydd gyda chymorth y Trysorydd sy'n gadael;**
- **(iii) nodi y bydd Gareth Owens yn cyflawni dyletswyddau'r Swyddog Monitro tan 31 Mawrth 2022.**

Gadawyd i Helen MacArthur, Gareth Owens a Matt Georgiou ddod yn ôl i mewn i'r cyfarfod.

17 AILBENODI AELODAU ANNIBYNNOL I WASANAETHU AR BWYLLGOR SAFONAU'R AWDURDOD

17.1 Fe wnaeth y Dirprwy Glerc gyflwyno'r adroddiad a oedd yn cynnig ailbenodi dau aelod annibynnol i Bwyllgor Safonau'r Awdurdod.

17.2 Mae Pwyllgor Safonau'r Awdurdod yn cynnwys dau aelod annibynnol a dau Aelod o'r Awdurdod. Bydd cyfnod swyddi Sally Ellis a Julia Hughes yn dod i ben ym mis Rhagfyr 2021; mae'r ddwy wedi cadarnhau eu bod yn barod i gael eu hailbenodi am ail gyfnod o bedair blynedd.

17.3 **PENDERFYNWYD ailbenodi Sally Ellis a Julia Hughes am gyfnod o bedair blynedd o'r 1 Ionawr 2022 ymlaen.**

Diolchodd y Cadeirydd i'r holl swyddogion am eu hadroddiadau a'u cyflwyniadau yn y cyfarfod ac i'r rhai a gyfrannodd at fanylder yr adroddiadau.

Cytunwyd wedyn i symud i ran II o'r cyfarfod.

Roedd yr Aelodau a'r Swyddogion a ganlyn yn bresennol ar gyfer trafod eitem rhan II.

Y Cynghorwyr: P Lewis; D Rees; B Apsley; M Bateman; B Blakeley; M Ll Davies; M Dixon; A I Dunbar; P Evans; J B Hughes; G Lowe; J W Parry; A Roberts; O Thomas; D Wisinger.

Y Swyddogion: Dawn Docx; Gareth Owens; Matt Georgiou; Alwen Davies; Sandra Williams (Cyfieithydd).

RHAN II

18 ASESIAD SEFYLLFAOL Y PRIF SWYDDOG TÂN

18.1 Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân ei hadroddiad a oedd yn amlinellu asesiad sefyllfaol cyfredol o'r Gwasanaeth. Roedd yn tynnu sylw at risgiau a heriau allweddol, ac roedd yn cynnig y camau nesaf i'r Awdurdod o ran cynyddu cadernid y Gwasanaeth rhag y risgiau a'r heriau hynny.

18.2 Roedd yr adroddiad yn rhoi crynodeb o 100 diwrnod cyntaf y PST yn ei swydd; roedd wedi cyfarfod â staff a rhanddeiliaid y Gwasanaeth, ac roedd nawr mewn sefyllfa i fynd i'r afael â rhai o'r materion a godwyd.

18.3 Yn y tymor byr, ymysg y materion i'w datrys roedd y ffaith fod nifer o swyddi dros dro yn cael eu dal yn y Gwasanaeth. Rhaid i'r man cychwyn ar gyfer hyn fod yn dîm y prif swyddogion ac roedd yr Aelodau'n cytuno y dylid comisiynu adroddiad meincnodi ar gyfer cyflogau'r prif swyddogion a chyflwyno'r canlyniad i'r Panel Gweithredol ym mis Hydref 2021. Bydd hyn yn galluogi cwblhau proses benodiadau er mwyn i honno gael ei chymeradwyo gan yr Awdurdod llawn ym mis Rhagfyr 2021. Cadarnhaodd y Dirprwy Glerc y byddai ei dîm yn cynnal yr adolygiad o gyflogau o ran cyflog y PST er mwyn sicrhau tryloywder ac yna byddai hi'n gysylltiedig â'r adolygiad cyflog ar gyfer gweddill swyddi'r Prif Swyddogion.

18.4 Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa fod adroddiadau diweddar gan Archwilio Cymru wedi tynnu sylw at yr angen i'r Awdurdod fynd i'r afael â'r risgiau strategol sy'n wynebu'r Gwasanaeth a chynyddu ei gadernid er mwyn mynd i'r afael â heriau yn y dyfodol; a hefyd bwysigrwydd cynnwys rhanddeiliaid, ymgysylltu'n eang a bod yn fwy tryloyw ac atebol.

18.5 Cynigiodd y PST hefyd werthuso'r risgiau a ganfuwyd drwy gyfres o adolygiadau wedi'u targedu ac yn cael eu hariannu o'r cronfeydd wrth gefn, ac a fydd yn sail ar gyfer 'map ffyrdd' ar gyfer yr Awdurdod Tân ac Achub nesaf yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2022.

18.6 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi asesiad sefyllfaol y PST, a'r heriau presennol a'r heriau a ragwelir yn y dyfodol ac a fydd yn wynebu GTAGC;**

**(i) cydnabod y bydd angen i'r Gwasanaeth gynyddu ei gadernid drwy wella a datblygu strwythurau sefydliadol tanategol;**

**(ii) gofyn i'r PST ddechrau rhaglen o adolygiadau i feysydd critigol allweddol, yn enwedig argaeledd criwiau ar-alwad, hyfforddiant, capasiti corfforaethol, a gofal ymatebol brys;**

**(iii) cytuno y bydd y gost o gwmpasu a chynllunio'r adolygiadau hyn yn dod o gronfeydd wrth gefn yn y lle cyntaf;**

**(ii) cadarnhau y dychwelir at y strwythur sefydledig o brif dîm rheoli, gan gynnwys swydd Prif Swyddog Cynorthwyol a chadarnhau penodi Helen MacArthur yn Brif Swyddog Tân Cynorthwyol;**

**(iii) gofyn am adolygiad meincnodi annibynnol o gyflogau'r prif dîm rheoli cyn hysbysu i'r swyddi gwag;**

**(iv) nodi'r angen i'r Aelodau ffurfio panel penodiadau'n cynnwys aelodau'r Panel Gweithredol, fel y nodir yng nghyfansoddiad yr Awdurdod, er mwyn gwneud argymhellion yn y cyfarfod nesaf o'r Awdurdod Tân ac Achub ym mis Rhagfyr 2021 ar gyfer penodi Dirprwy Brif Swyddog Tân a Phrif Swyddog Tân Cynorthwyol.**